Ysgol Pentreuchaf

49. Polisi Cyswllt â'r Ysgol Uwchradd

Nod

Datblygu a chynnal cyswllt cyson, effeithiol, ffurfiol ac anffurfiol rhwng Ysgol Pentreuchaf ag Ysgol Uwchradd Glan y Mor, sef ysgol uwchradd y dalgylch.

Canllawiau

1. Y Pennaeth / athrawes Blwyddyn 6 fydd yn mynychu cyfarfodydd Cyswllt Cynradd Uwchradd Rheolaethol a'r Cyfarfodydd Cwricwlaidd. Cynhelir cyfarfod cyswllt cynradd/uwchradd sydd â'i bwyslais ar faterion cwricwlaidd o leiaf unwaith bob tymor.

2. Mae gennym Strategaeth Pontio Cynradd Uwchradd cynhwysfawr – bydd hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd.

3. Bydd plant B6 yn gwario amser yn Ysgol Uwchradd Glan y Mor yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd.

4. Gall rhai plant ddewis mynychu ysgol uwchradd arall. Pe byddai hyn yn digwydd, byddent hwythau yn cael gwario diwrnod neu ddau yno yn ystod eu tymor olaf yma.

5. Ar adegau, gobeithiwn ddefnyddio adeilad Ysgol Uwchradd Glan y Mor i wylio perfformiadau ac o bosibl i weithgareddau eraill.

6. Bydd athrawon a chymorthyddion o Ysgol Uwchradd Glan y Mor yn ymweld i wahanol weithgareddau megis cynlluniau pontio ac ati.

7. Mae'r plant hefyd yn cael cyfle i ddod yn gyfarwydd ac adeilad Ysgol Glan y Mor yn ystod gweithdai, ymweliadau, Eisteddfod yr Urdd, gemau pêl droed a phêl rwyd, gweithgareddau'r Urdd a.y.y.b.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____